Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Strategaeth Ddata

Mawrth 2025



**Gallwn ddarparu crynodeb o’r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras a Hawdd ei Ddeall.**

Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â ni:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

E-bost: cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Strategaeth Ddata

# Cynnwys


Cefndir 5

Ein rôl 6

Ein huchelgais 6

Ein hegwyddorion 6

Pwrpas a chwmpas 7

Strategaeth Ddata a'n Cynllun Strategol 8

Llywodraethu data a diogelwch 9

Ein hamcanion 10

1. Casglu ac ansawdd 11

2. Llythrennedd a diwylliant 13

3. Y gallu i ddadansoddi data 15

4. Cyfathrebu data 17

Mesur a mireinio 18

Y camau nesaf 19

# Cefndir

# Ein rôl

Mae gennym dair rôl yn bennaf.

- Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.
- Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.
- Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru

# Ein huchelgais

- Mae pobl Cymru yn teimlo bod gwasanaethau cyhoeddus yn eu trin yn deg ac yn ymateb pan aiff pethau o chwith.
- Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gwrando ar unigolion ac yn defnyddio eu cwynion i ddysgu a gwella.
- Mae ymddiriedaeth yn llywodraeth leol Cymru i gyflawni'r safonau uchaf o ymddygiad.
- Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn parhau i fod yn llais dylanwadol ac uchel ei barch o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus.

# Ein hegwyddorion

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen arnynt.

# Pwrpas a chwmpas

Rydym yn casglu data o wahanol ffynonellau, gan gynnwys systemau mewnol, darparwyr data allanol, trwy synwyryddion a thrwy ryngweithio â defnyddwyr. Fel sefydliad sector cyhoeddus, mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio ein data'n ddiogel ac yn unol â safonau cyfreithiol a moesegol perthnasol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni hefyd ystyried pob cyfle i ddefnyddio'r data sydd ar gael i ni i weithio'n fwy effeithlon ac ychwanegu gwerth, er budd pobl Cymru.

Mae gennym eisoes Strategaeth TG a Digidol ar waith. Er bod y Strategaeth honno'n canolbwyntio'n bennaf ar ansawdd a gwytnwch ein prosesau, ein technoleg a'n seilwaith digidol a sgiliau digidol staff, mae hefyd yn ein hymrwymo i 'Wneud gwell defnydd o'n data', er mwyn

- nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus.
- helpu i nodi a chefnogi defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus sy'n llai tebygol o gwyno.
- nodi'r meysydd ar gyfer ymchwiliadau Ar Ein Liwt Ein Hunain ac adroddiadau thematig.

Mae'r Strategaeth TG a Digidol yn nodi ymhellach y byddai system well o ddadansoddi data yn helpu i sicrhau'r perfformiad gorau posibl, nodi aneffeithlonrwydd a darparu gwybodaeth i gyfrannu at benderfyniadau strategol.

Pwrpas ein Strategaeth Ddata yw adeiladu ar yr ymrwymiadau hyn, a'u datblygu, gan ganolbwyntio'n benodol ar ein trefn o gasglu data ac ansawdd, llythrennedd a'n gallu i ddadansoddi data.

# Strategaeth Ddata a'n Cynllun Strategol

Bydd y Strategaeth Ddata yn cyfrannu at bob un o bedwar nod ein Cynllun Strategol:

### Nod Strategol 1: Cyflawni cyfiawnder sy'n cael effaith gadarnhaol ar bobl a gwasanaethau cyhoeddus.

Drwy wella ein trefn ar ddata, ein llythrennedd a'n prosesau, bydd y Strategaeth yn ein helpu i reoli ein llwyth gwaith cynyddol yn well a darparu gwasanaeth gwell a chyflymach i bobl Cymru.

### Nod Strategol 2: Cynyddu hygyrchedd a chynhwysiant.

Bydd y Strategaeth yn ein helpu i ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael i ni i nodi tueddiadau o ran hygyrchedd ein gwasanaeth a diffinio meysydd i'w gwella.

### Nod Strategol 3: Cynyddu effaith ein gwaith gwella rhagweithiol.

O dan y Strategaeth hon, byddwn yn defnyddio ein data yn well i ddarparu gwybodaeth a fydd yn sbarduno newid yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru.

### Nod Strategol 4: Sicrhau ein bod yn sefydliad iach, effeithlon ac atebol.

Un o brif nodau'r Strategaeth fydd cynyddu llythrennedd data ein staff drwy feithrin diwylliant data drwy'r sefydliad, a fydd yn ei dro yn gwella ein gallu fel sefydliad ac yn lleihau'r risgiau o wallau data.

Credwn y gall ein data gyfrannu at ein nodau strategol a gall gael effaith gadarnhaol ar ein sefydliad. Bydd y wybodaeth o'n data yn ein helpu i hybu gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus gan barhau i ddarparu gwasanaethau o'r safon uchaf.

Dyma ein strategaeth ddata gyntaf a bydd yn cwmpasu blwyddyn olaf Cynllun Strategol 2023 – 2026. Wrth i'r Cynllun Strategol newydd gael ei ddatblygu, byddwn hefyd yn ailedrych ar ein Strategaeth Ddata i sicrhau bod ei chwmpas yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol.

# Llywodraethu data a diogelwch

Mae trefn gadarn o lywodraethu data'n hanfodol i ddiogelu data sensitif a sicrhau y cydymffurfir â safonau cyfreithiol a moesegol.

Mae gennym eisoes sawl strategaeth a pholisi sy'n berthnasol i'r meysydd hyn:

- Polisi Diogelu Gwybodaeth - sy'n cwmpasu ein trefn rheoli diogelwch sefydliadol a thechnegol i ddiogelu data personol rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon a rhag colli, dinistrio neu ddifrodi data'n ddamweiniol.
- Polisi Llywodraethu TG - yn canolbwyntio ar reoli ein darpariaeth TG yn unol â'r polisïau hyn.
- Polisi Diogelu Data - sy'n nodi'r sail ar gyfer prosesu unrhyw ddata personol i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth diogelu data.

Er mwyn osgoi dyblygu, nid yw ein Strategaeth Ddata yn cynnwys y meysydd sy'n cael sylw yn y polisïau hynny.

# Ein hamcanion

# 1. Casglu ac ansawdd

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

Rydym eisoes yn casglu ystod eang o ddata. Rydym yn casglu gwybodaeth helaeth am gwynion a gwybodaeth bersonol gan ein hachwynwyr. Gofynnwn i gyrff cyhoeddus yng Nghymru rannu data gyda ni am y cwynion y maent yn eu derbyn i'n helpu i ddeall a chymharu'r dull o ymdrin â chwynion. Rydym hefyd yn monitro tueddiadau sy'n gysylltiedig â'n trefniadau mewnol, gan gasglu ystadegau sy'n gysylltiedig ag Adnoddau Dynol, cynaliadwyedd busnes a pherfformiad ariannol.

Fodd bynnag, nid oes trosolwg strategol o'n ffynonellau data a'n harferion casglu. Gallai hyn olygu na fydd rhywfaint o'n data yn cael ei gasglu i safon gyson uchel, na wneir llawer o ddefnydd o rywfaint o ddata a gesglir, neu ddim defnydd o gwbl, ac y bydd rhai bylchau yn ein data, a allai effeithio ar ein proses monitro perfformiad cyffredinol.

## Lle rydyn ni eisiau bod

Rydyn ni am fod yn hyderus ein bod yn

- casglu'r data cywir i gefnogi ein gwaith
- bod ein data'n gywir, yn gyson ac yn gyflawn ar draws pob system
- bod modd dod o hyd i'r data sydd ei angen arnom yn hawdd ac y gallwn ei reoli'n effeithiol, gyda pherchennog penodol i bob eitem o ddata.

## Sut y cyflawnir hyn

- cynnal archwiliad o'n holl ddata i nodi ffynonellau data allweddol (mewnol ac allanol) yn ogystal â dulliau integreiddio (prosesau Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API), Echdynnu, Trawsnewid a Llwytho (ETL))
- creu catalog data, gan ein galluogi i ddod o hyd i'r data sydd gennym yn gyflym
- sicrhau bod y data a gesglir yn gywir, yn gyflawn, yn gyfredol ac yn gyson (os caiff ei gofnodi ar draws mwy nag un platfform) trwy broses Sicrhau Ansawdd drylwyr i ddileu gwallau posibl
- nodi unrhyw fylchau a datblygu cynllun i gasglu unrhyw ddata coll sydd ei angen i gefnogi ein nodau busnes a'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol
- parhau i weithio gyda chyrff perthnasol ar ddull safonol o ddarparu gwybodaeth am ymdrin â chwynion, er mwyn sicrhau bod y data a rennir â ni'n ddilys.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth

- % o gofnodion data sy'n bodloni safonau ansawdd.
- gostyngiad mewn cofnodion wedi'u dyblygu neu rai sy'n anghyflawn.
- llai o brosesau data â llaw sy'n cymryd llai o amser i'w cwblhau gan ddileu unrhyw ddyblygu mewn ffynonellau data.

# 2. Llythrennedd a diwylliant

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

Mae bron pawb o fewn y sefydliad yn gyfrifol am fewnbynnu neu ddadansoddi data. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ymdeimlad go iawn o ddiwylliant data, a dim ond ychydig o "arbenigwyr data" sydd yn y sefydliad. Nid yw staff wedi cael unrhyw hyfforddiant i wella eu llythrennedd data.

## Lle'r ydym ni eisiau bod

Rydym eisoes wedi dechrau gwella ein gallu i ddadansoddi data ac adeiladu diwylliant data ar draws y sefydliad. Bydd hyn yn ein helpu i ddod yn arbenigwyr data dibynadwy.

Rydym am hyrwyddo diwylliant sy'n cael ei yrru gan ddata ymhellach ar draws y sefydliad, er mwyn sicrhau

- nad oes unrhyw wallau wrth ymdrin â data ac adrodd data
- bod mwy o hyder wrth ddefnyddio data ar gyfer gwneud penderfyniadau
- ein bod yn gallu nodi data allanol perthnasol a fydd o fudd i waith ein sefydliad yn hawdd
- bod ychydig o newidiadau i brosesau presennol ar gyfer ymchwilwyr, ond eu bod yn gallu gweld manteision data cywir a chyflawn.

## Sut y cyflawnir hyn

- dechrau mesur lefel hyder staff wrth ddefnyddio data
- darparu hyfforddiant wedi'i dargedu i feithrin sgiliau staff mewn dadansoddi data a gwneud penderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ddata
- helpu i sicrhau bod staff yn fwy cyfarwydd â Power BI
- ymchwilio i ddata allanol a allai ein helpu gydag adroddiadau ar ein liwt ein hunain ac adroddiadau thematig.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth

- % y staff sy'n cwblhau hyfforddiant llythrennedd data.
- hyder staff wrth ddefnyddio data (wedi'i fesur drwy arolwg staff)
- bod staff yn gallu defnyddio ein data'n hyderus a gweld manteision ein gwaith i wella ein hallbynnau data
- ein bod yn gwneud mwy o ddefnydd o ddata allanol perthnasol yn ein gwaith gwella ac ymchwilio.

# 3. Y gallu i ddadansoddi data

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

Er gwaethaf yr ystod eang o ddata sydd ar gael i ni, nid ydym ar hyn o bryd yn ei ddefnyddio i'w lawn botensial i wneud penderfyniadau busnes neu ddarparu gwybodaeth. Rydym yn gwneud defnydd cyfyngedig iawn o ddadansoddeg disgrifiadol (i ddadansoddi data hanesyddol), dadansoddeg rhagfynegol (i ragweld tueddiadau), a dadansoddeg rhagnodol (i argymell camau gweithredu).

Mae ein hadroddiadau gwaith achos yn dal i gael eu creu â llaw, gan ddefnyddio adnoddau syml o fewn Workpro, Excel a Word.

Nid ydym chwaith yn gwneud llawer o ddefnydd o adnoddau delweddau data. Mae hyn yn golygu bod y modd y cyflwynir ein dadansoddiad o'r data yn aml yn cynnwys llawer o destun. Mae hyn yn golygu nad yw mor hygyrch a phriodol ag y dylai fod.

Yn ogystal â hyn, er bod gennym ddata helaeth a sylweddol ar gwynion a dderbynnir gan ein sefydliad ac yr ymdrinnir ag ef gan sefydliadau yn ein hawdurdodaeth, yn y gorffennol rydym wedi cael trafferth nodi tueddiadau ehangach, systemig mewn methiannau gwasanaeth, ac felly hefyd meysydd i'w gwella.

## Lle'r ydym ni eisiau bod

Rydyn ni am

- wella'r ddealltwriaeth o'n capasiti o ran gwaith achos a chefnogi ein penderfyniadau busnes trwy wybodaeth sy'n seiliedig ar ddata ac adnoddau delweddau data o ansawdd uchel
- gwella ein gallu i nodi tueddiadau cwynion a materion systemig, i wella gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir yng Nghymru
- gwella gwybodaeth am ddata ar draws y tîm data ac adeiladu gwytnwch.

## Sut y cyflawnir hyn

- datblygu dangosfyrddau Power BI ar gyfer monitro mewn amser real y llwyth achosion, tueddiadau cwynion a metrigau perfformiad, i'w defnyddio mewn gwaith monitro mewnol a chyfarfodydd allanol gyda sefydliadau
- awtomeiddio adroddiadau misol a chwarterol
- defnyddio Power BI a llwyfannau delweddu data eraill os oes angen i nodi tueddiadau o ran cwynion, gan gynnwys y rhai yn y cam Derbyn
- datblygu crynodeb o dueddiadau gwaith achos i gyfrannu at ddatblygu adroddiadau thematig ac ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth

- mwy o ddefnydd o Power Bi ar gyfer creu adroddiadau, lle mae gennym fynediad at setiau data byw
- defnyddir gwybodaeth yn rheolaidd mewn ymatebion polisi, adroddiadau thematig ac ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain.

# 4. Cyfathrebu data

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

Rydym yn cyhoeddi ystod eang o ddata yn rheolaidd trwy ein prif sianeli cyfathrebu. Mae ein gwefan yn cynnwys Data Agored (a gaiff ei ddiweddaru'n chwarterol), ystadegau am safonau cwynion a chyhoeddiadau sy'n llawn ddata fel ein Hadroddiadau Blynyddol. Rydym hefyd yn rhannu data mewn modd mwy ad-hoc gyda'r wasg yn ogystal â sefydliadau yn ein hawdurdodaeth, i'w helpu i wella eu gwasanaeth.

## Lle’r ydym ni eisiau bod

Rydyn ni am

- sicrhau bod y data a gyhoeddwn ar ein gwefan yn hawdd ei ddefnyddio, yn hygyrch ac yn hawdd ei ddeall.
- gwella sut rydym yn rhannu data gyda sefydliadau yn ein hawdurdodaeth, gan awtomeiddio'r adroddiadau lle bo hynny'n bosibl.
- datblygu dull safonol o fformatio data, gyda brand ac arddulliau cyson.

## Sut y cyflawnir hynny

- ystyried y cyfleoedd i ategu neu newid y fformatau sydd gennym eisoes ar gyfer rhannu data (fel Data Agored a Llythyrau Blynyddol) gyda dangosfyrddau Power BI
- gwella delweddau data mewn cyhoeddiadau allweddol fel yr Adroddiad Blynyddol
- sicrhau bod cyhoeddiadau data yn cael sylw cyson yn ein gweithgareddau cyfathrebu
- datblygu templedi cyson i'w defnyddio wrth gyhoeddi unrhyw ddata.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth

- bod sefydliadau'n gwybod pryd mae ein data ar gael i'w weld a'u bod yn ymddiried ynom i ddarparu data rheolaidd a chywir
- bod modd adnabod ein brand a'n harddull yn syth
- ein bod yn derbyn llai o geisiadau am wybodaeth ystadegol neu'n gallu cyfeirio mwy o ymholiadau at adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd.

# Mesur a mireinio

Bydd amcanion y Strategaeth hon yn ein helpu i gyflawni'r nod o fod yn sefydliad dibynadwy sy'n cael ei yrru gan ddata.

Byddwn yn asesu effeithiolrwydd y Strategaeth hon yn rheolaidd ac yn ei haddasu yn ôl yr angen.

# Y camau nesaf

Er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y Strategaeth hon, byddwn yn canolbwyntio ar y camau gweithredu dangosol canlynol.

**Cyn gynted â phosibl**

- cynnig hyfforddiant data i ddetholiad o staff sy'n ymwneud fwyaf â thrin data
- cynnal archwiliad llythrennedd data
- gwella adroddiadau data mewnol, gydag adroddiadau chwarterol a misol yn cael eu symud i Power BI
- cynnal archwiliad o'r holl ddata i nodi ffynonellau data allweddol
- bod pob aelod o staff yn derbyn trwydded Power BI Pro.

**Yn ddiweddarach (o fewn blwyddyn gyntaf y Strategaeth)**

- cynnig hyfforddiant data i bob aelod o staff
- creu warws data
- nodi unrhyw fylchau a datblygu cynllun i gasglu unrhyw ddata coll, gan gynnwys yn allanol
- ail-werthuso'r ffordd yr ydym yn rhannu Data Agored, data am safonau cwynion ac ystadegau Llythyrau Blynyddol, gyda'r bwriad o ddefnyddio dangosfyrddau Power BI yn lle'r fformatau sy'n bodoli ar hyn o bryd
- dechrau nodi tueddiadau yn ein cwynion i gyfrannu at waith gwella
- cyflwyno fformatau delweddau data newydd, mwy hygyrch i'w cynnwys yn ein prif gyhoeddiadau

### Tymor hir (y tu hwnt i flwyddyn gyntaf y Strategaeth)

- symud yr holl adroddiadau i Power BI a dechrau nodi tueddiadau yn ein cwynion.
- ymchwilio i ddata allanol a allai ein helpu gydag adroddiadau ar ein liwt ein hunain ac adroddiadau thematig.
- datblygu safon brand sy'n gyson er mwyn gallu adnabod ein data yn syth.
- datblygu crynodeb o dueddiadau gwaith achos i gyfrannu at ddatblygu adroddiadau thematig ac ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

Ebost: holwch@ombwdsmon.cymru

Dilynwch ni ar X: @OmbudsmanWales